



4.0 Gwirfoddolwyr

Beth mae Canolfannau Gwirfoddoli yn ei wneud yng Nghymru

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Pam mae gwirfoddoli'n bwysig
3. Beth mae Canolfannau Gwirfoddoli yn ei wneud

Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu rôl Canolfannau Gwirfoddoli yng Nghymru a sut gallwch chi gysylltu â nhw.

Cyflwyniad

Mae gwirfoddoli'n weithgaredd:

- Sy'n cael ei wneud yn wirfoddol ac yn ddewisol
- Sy'n cael ei wneud er budd cyhoeddus/cymunedol
- Nad yw'n cael ei wneud er budd ariannol

Nid yw llawer o bobl sy'n gwirfoddoli yn eu hystyried eu hunain yn wirfoddolwyr.

Efallai eu bod yn ystyried eu hunain yn bobl sy'n 'rhoi help llaw'; yn 'gymdogion da' neu'n bobl sy'n cyflawni rôl fel ymddiriedolwr elusen neu lywodraethwr ysgol.



Llun: Dau unigolyn yn gweithio ar liniadur

Pam mae gwirfoddoli'n bwysig

Yn ôl '[Adnodd Ystadegol Trydydd Sector 2018](#)' CGGC, mae 32,500 o fudiadau trydydd sector yn gweithredu yng Nghymru, gyda mwy na 900,000 o bobl yn cefnogi eu gweithgareddau. Cydnabyddir bod gwirfoddoli'n cyflwyno buddion cadarnhaol i'r gwirfoddolwyr eu hunain, y mudiadau cysylltiedig ac i'r gymuned ehangach.

I'r unigolyn, y buddion mwyaf cyffredin yw mwynhau gweithgaredd â diben, ennill profiad, sgiliau a datblygu personol, gan gynnwys magu hyder a hunan-barch a datblygu cydberthnasau newydd a chadarnhaol â phobl eraill.

I fudiadau (sy'n cael eu rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr weithiau), mae gwirfoddolwyr yn cyflwyno gwerth ychwanegol trwy eu nodweddion personol, y sgiliau y maen nhw'n eu defnyddio a'r amser y maen nhw'n ei roi i ni, ac felly'n ychwanegu capasiti at weithgareddau'r mudiad.

Mae gwirfoddoli'n bwysig i gymunedau lle a chymunedau buddiant. Mae'n adeiladu cyfalaf cymdeithasol yn y ffyrdd canlynol:

- Datblygu'r gwasanaethau lleol a ddarperir
- Cynyddu llesiant cymdeithasol
- Cyfranogiad democrataidd
- Cynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol

Mae pobl yn dechrau gwirfoddoli trwy nifer o lwybrau, gan gynnwys ysgolion, cyrff crefyddol a chysylltiad uniongyrchol â mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, ond mae gan Ganolfannau Gwirfoddoli rôl bwysig hefyd, maen nhw'n ffynhonnell allweddol o arweiniad a chymorth.

Mae Canolfannau Gwirfoddoli'n cael effaith ar wirfoddoli, nid yn unig trwy eu gwasanaethau brocera, ond hefyd trwy godi ymwybyddiaeth o wirfoddoli a'i hybu'n lleol, datblygu cyfleoedd a gweithio gyda grwpiau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr er mwyn gwella eu harferion.



Gellir dod o hyd i'r manylion cyswllt ar gyfer Canolfannau Gwirfoddoli ar y daflen wybodaeth:

4.1 Meddwl am Wirfoddoli

Beth mae Canolfannau Gwirfoddoli yn ei wneud

Mae Canolfan Gwirfoddoli ym mhob sir yng Nghymru sy'n cynnig cymorth gwirfoddoli lleol i wirfoddolwyr a mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr. Mae ganddyn nhw chwe swyddogaeth graidd:

Hyrwyddo a Dathlu Gwirfoddolwyr

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn:

- Ysgogi ac annog diddordeb lleol mewn gwirfoddoli a gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys trwy ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Dathlu gwirfoddolwyr a gwirfoddoli, er enghraifft, trwy gymryd rhan yn yr [Wythnos Gwirfoddolwyr](#) flynyddol.
- Rheoli a hyrwyddo brand gwirfoddoli i Gymru: [Gwirfoddoli Cymru](#)

Datblygu Arferion Da

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn:

- Hyrwyddo arferion da wrth weithio gyda gwirfoddolwyr gyda phob mudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr.
- Trefnu hyfforddiant ac achrediad ar gyfer darpar wirfoddolwyr, gwirfoddolwyr, rheolwyr gwirfoddolwyr a'r seilwaith gwirfoddoli.
- Hybu cyfleoedd rhwydweithio er mwyn i reolwyr gwirfoddolwyr ymhél â dysgu a chymorth cymheiriaid.
- Hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r marc ansawdd [Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#) yng Nghymru

Datblygu Cyfleoedd Gwirfoddoli

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn:

- Gweithio mewn partneriaeth agos â mudiadau statudol a mudiadau'r sector preifat a thrydydd sector, gan gynnwys grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd, i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli lleol.
- Deall y potensial a gynigir gan gymunedau lleol a gweithio gyda nhw i gyflawni'r potensial hwn trwy wirfoddoli.
- Hybu gwirfoddoli cyffredinol ac anffurfiol o fewn y gymuned, yn ogystal ag annog amrediad eang o rolau gwirfoddoli o fewn mudiadau.
- Ystyried diddordebau grwpiau penodol sy'n wynebu rhwystrau i wirfoddoli wrth ddatblygu cyfleoedd

Polisi ac Ymgyrchu

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn:

- Nodi, cychwyn ac yn ymateb i gynigion neu ddeddfwriaeth a allai effeithio ar wirfoddoli.
- Arwain a/neu'n cymryd rhan mewn ymgyrchoedd ar faterion sy'n effeithio ar wirfoddolwyr neu wirfoddoli.
- Ymgyrchu'n rhagweithiol dros gael mwy o werthfawrogiad a dealltwriaeth o wirfoddoli a hinsawdd sy'n fwyfwy ystyriol o wirfoddolwyr.
- Cael eu cynrychioli ar [Rwydwaith Gwirfoddoli Cymru](#), sef y llais cenedlaethol ar gyfer dylanwadu ar bolisiau ac arferion gwirfoddoli

Datblygiad Strategol Gwirfoddoli

Mae Canolfannau Gwirfoddoli, yr arbenigwyr ar wirfoddoli, yn llywio syniadau a chynlluniau strategol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol drwy'r Rhwydwaith Ymarferwyr Gwirfoddoli a thrwy ffyrdd eraill.

Brocera

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn:

- Rhoi cymorth a chyngor i unigolion a grwpiau sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli ac yn eu paru â chyfleoedd priodol, lleol.
- Cynnig gwasanaeth brocera i unrhyw un sydd eisiau help i ddod o hyd i gyfle gwirfoddoli addas, gan gynnwys pobl ag anghenion cymorth ychwanegol.
- Cadw gwybodaeth am amrediad cynhwysfawr o gyfleoedd, a gall darpar wirfoddolwyr gyfeirio at [wefan Gwirfoddoli Cymru](#) i ddod o hyd i rolau gwirfoddoli, neu eu Canolfan Gwirfoddoli Lleol. Mae Canolfannau Gwirfoddoli'n cadw'r data ar y wefan hon yn gyfredol.
- Cydnabod bod gan lawer o ddarpar wirfoddolwyr syniad clir ynghylch yr hyn y maen nhw am ei wneud a chyda pha fudiad y maen nhw eisiau ei wneud. Nid oes angen gwasanaethau brocera Canolfan Gwirfoddoli ar bobl o'r fath (y mwyafrif o wirfoddolwyr). Fodd bynnag, bydd pob gwirfoddolwr yn cael budd uniongyrchol neu anuniongyrchol o swyddogaethau craidd eraill Canolfannau Gwirfoddoli sy'n ceisio gwella a hwyluso gwirfoddoli'n barhaus yng Nghymru.



Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt Canolfannau Gwirfoddoli ar wefan Gwirfoddoli Cymru, sy'n cynnwys oddeutu 6,000 o gyfleoedd gwirfoddoli:

[Gwefan Gwirfoddoli Cymru](#)

Yn ogystal â'r Swyddogaethau Craidd: Prosiectau sy'n cael eu cyllido

Yn ogystal â'r swyddogaethau craidd hyn, mae Canolfannau Gwirfoddoli'n derbyn cyllid, o bryd i'w gilydd, i ymgymryd â phrosiectau ychwanegol sy'n aml â chyfyngiad amser sy'n darparu etifeddiaeth o ddysgu, arferion da neu ganlyniadau eraill buddiol ar gyfer gwirfoddoli. Weithiau, mae'r rhain ar hyd a lled Cymru ac weithiau maen nhw mewn ardaloedd llai.

Dyma rai enghreifftiau o'r **gorffennol**:

- **GwirVol** (gyda Gwirfoddolwyr y Mileniwm), ar gyfer gwirfoddoli ieuencid, cyllidwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Prosiect Gwirfoddoli Cymru a gyllidwyd gan **Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol** (a adnabu ynghynt fel y Loteri FAWR), ar gyfer pobl ddi-waith a phobl ag anghenion cymorth uwch yn bennaf.
- **Rhaglen Wirfoddoli'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)** ar gyfer y rheini sy'n hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith, a gyllidwyd gan Lywodraeth y DU



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.